# Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## SLC(3)-01-08)

**SLC94**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Y Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Personau Rhagnodedig) (Cymru) 2004 ac yn eu hailddeddfu'n sylweddol fel y'u diwygiwyd.
**Gweithdrefn: Negyddol** Mae Rheoliadau 5(4)-(7) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adran 537A(5) o Ddeddf Addysg 1996. Yn unol â hynny dylai adran 537A(5) o Ddeddf 1996 fod wedi'i henwi fel pwer a ddibynnwyd arno i wneud y Rheoliadau hyn. Byddai wedi bod yn fwy diogel bod wedi enwi adran 537A yn ei chyfanrwydd, yn hytrach na gwneud detholiad anghyflawn o is-adrannau. Fodd bynnag, gan bod y pwer yn bodoli, hyd yn oed os nad yw wedi'i adrodd, nid oes angen gweithred adfer. [Rheol Sefydlog 15.2(v)]

Mae cynghorwyr cyfreithiol y Llywodraeth wedi nodi eu bod yn cytuno â'r pwyntiau uchod.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**Ionawr 2008**